Sut mae Home-Start yn helpu teuluoedd yn eich cymuned:
canllaw ar gyfer darparwyr gwasanaethau lleol

Mae Home-Start yn cynnig cymorth personol un-i-un ar gyfer rhieni sydd â phlant dan bum mlwydd oed; yn darparu cymorth i deuluoedd sy'n wynebu'r perygl o gael eu heithrio'n gymdeithasol, gan gynnwys y rhai nad ydynt mewn unrhyw gysylltiad â gwasanaethau eraill.

Mae Home-Start yn gosod gwirfoddolwyr hyfforddedig ochr yn ochr â rhieni. Caiff y cymorth ei deilwra i ddiwallu anghenion unigol pob teulu, a'i ddarparu am y cyfnod y bydd y teulu ei angen.

Caiff y gwirfoddolwyr eu rheoli a'u goruchwylio gan eu cynllun Home-Start lleol a gaiff ei gefnogi gan Home-Start UK; adnodd cymunedol sy'n cynnig yr holl fanteision sy'n gysylltiedig â sefydliad cenedlaethol cryf.

Home Start

Cefnogaeth a chyfeillgarwch i deuluoedd

Support and friendship for families

Beth mae Home-Start yn ei gynnig i'ch cymuned

- Cysylltiad â theuluoedd: ymweld â chartrefi a gwasanaethau cymorth eraill i rieni
- Gwaith partneriaeth ac arbenigeddau lleol i wella cymorth i deuluoedd
- Ymddiriedolwyr: dewis, hyfforddi ac arwain pobl leol i fod yn gyfrifol am wasanaeth lleol
- Gwirfoddolwyr: dewis, hyfforddi a goruchwylio rhieni lleol i ddarparu cymorth un-i-un i rieni lleol eraill
- Gwerth ychwanegol: rhoi adnoddau, arian lleol ac arian o fannau eraill i'r gymuned

Beth a wnawn

- Darparu cymorth personol wedi'i deilwra i deuluoedd, yn eu cartrefi eu hunain, ac mewn grwpiau
- Annog rhwydweithiau cymdeithasol a chymorth ehangach a chyfleoedd i gymryd mwy o ran mewn bywyd cymunedol
- Cynnig dewisiadau i rieni a'u plant a chyfleoedd iddynt leisio eu barn
- Cynnig rôl-fodelau cyson ar gyfer rhieni a'u plant – oedolion eraill sy'n gofalu
- Hyrwyddo dinasyddiaeth weithredol, drwy gynnwys pobl leol mewn gwaith cynllunio a darparu
- Sicrhau gwasanaeth cyson, o safon uchel drwy fonitro a sicrhau ansawdd

Gallwn ni wneud gwahaniaeth

- Mae teuluoedd yn datblygu strategaethau ymdopi gwell ac mae rhieni'n dod yn fwy hyderus
- Nid yw rhieni a phlant yn teimlo eu bod ar yr ymylon
- Mae teuluoedd yn gwneud defnydd gwell o wasanaethau lleol, yn llai unig ac mae ganddynt olygon ehangach
- Mae plant yn cael hwyl a chyfleoedd i fwynhau profiadau newydd
- Perthynas gryfach rhwng rhiant a phlentyn
- Cartrefi hapusach a mwy diogel, plant hapusach a mwy diogel
- Gwirfoddolwyr unigol yn cael eu hannog a'u cefnogi i hyfforddi a gweithio
- Cynyddu gallu'r gymuned: pobl leol yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol ar gyfer pobl leol

Cyf: Home-Start Model 2008 Cynhyrchwyd gan Home-Start UK, 2 Salisbury Road, Caerlyr LE1 7QR

www.home-start.org.uk info@home-start.org.uk

Cynhyrchwyd gan Home-Start UK, cwmni cyfyngedig dan warant, rhif y cwmni 5382181 Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1108837) ac yn yr Alban (SC039172)